



O'r Ysbyty i'r Cartref

RHAN 2

Pa mor addas ac effeithiol yw trefniadau rhyddhau cleifion o'r Ysbyty i'r Cartref yng Ngwynedd?



Ymchwiliad Craffu gan aelodau dethol o'r Pwyllgor Craffu
Gwasanaethau

Cynnwys

		Rhif Tudalen
	Cyflwyniad	1
1	Prif Ganfyddiadau	3
2	Prif Argymhellion	4
3	Perfformiad Cenedlaethol	5
4	Broceriaeth	7
5	Cynllun Gofal	10
6	Trydydd Sector	13
7	Penwythnos	18
8	Ysbyty Bronglais	20
9	Prinder Meddygon a Nyrsys	22
10	Protocol Rhyddhau	23
11	Biwrocratiaeth	26
	Atodiad	30

CYFLWYNIAD

1 Cefndir yr Ymchwiliad

Pryder am drefniadau rhyddhau a throsglwyddo cleifion o'r ysbyty sydd wrth wraidd yr ymchwiliad craffu hwn. Roedd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau bryderon am addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yng Ngwynedd.

Mae Rhan 2 o'r Ymchwiliad yn seiliedig ar farn unigolion a gyfwelwyd â hwy ac fe nodir y sylwadau fel Tystiolaeth dan benawdau'r Prif Ganfyddiadau a'r Prif Argymhellion ym mhob adran.

Penderfynodd aelodau'r Ymchwiliad ddilyn y dull yma er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth yn llawn a diragfarn.

2 Brîff yr Ymchwiliad

Nod yr Ymchwiliad oedd ystyried y materion canlynol:

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rhyddhau o safbwynt sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion hŷn, gan adnabod ac amlygu arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.
- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor o ran asesu, cynllunio a darparu gofal integredig a phriodol i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Rôl mudiadau Trydydd Sector o safbwynt cefnogi cleifion hŷn i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.
- Adnabod enghreifftiau o arferion da o ardaloedd eraill ac amlygu'r rhai y gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd/Gogledd Cymru.
- Llunio cyfres o argymhellion gwella i'w cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwynedd a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ymateb i brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwiliad.

3 Rhan 1

Fe rannwyd gwaith yr ymchwiliad i ddwy ran. Cyflwynwyd Adroddiad Rhan 1 i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 19 Mehefin 2014.

Roedd Rhan 1 yn canolbwyntio ar y trefniadau o safbwynt y claf yn cael ei baratoi ar gyfer gadael yr Ysbyty. Roedd y Prif Gasgliadau a'r Prif Argymhellion yn seiliedig ar yr wybodaeth ganlynol:

- Adnabod Arferion Da mewn ardaloedd eraill
- Sylwadau gan 14 o Bobl Hŷn mewn cyfarfodydd a fforymau.
- Sylwadau gan 5 o Swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Sylwadau gan 3 o swyddogion Adran Gofal, Iechyd a Llesiant y Cyngor
- Sylwadau gan 1 o swyddogion y Trydydd Sector.

Derbyniwyd yr Argymhellion i gyd gan yr Aelod Cabinet Gofal ar 19 Mehefin 2014 a chytunodd i lunio Cynllun Gweithredu er mwyn cyflawni'r argymhellion.

Mae'r aelodau wedi ystyried yr Adroddiad Cynnydd yn eu Cyfarfod Paratoi ym mis Mawrth 2015 a gofynnodd yr aelodau am eglurder ar rai pwyntiau yn y Cynllun Gweithredu.

4 Rhan 2

Mae Rhan 2 wedi canolbwyntio ar y trefniadau o safbwynt y claf ar ôl iddo/iddi ddychwelyd i'r Gymuned neu i'r Cartref. Mae'r Adroddiad ynghyd â'r Prif Ganfyddiadau a'r Prif Argymhellion a gyflwynir yn seiliedig ar yr wybodaeth ganlynol:

- Data Perfformiad
- Sylwadau gan 9 o swyddogion y Trydydd Sector
- Sylwadau gan 9 o swyddogion Adran Gofal Iechyd a Llesiant y Cyngor
- Sylwadau gan 4 o swyddogion y Bwrdd Iechyd
- Sylwadau gan 1 o swyddogion y Sector Breifat
- Sylwadau gan 9 aelod Canolfan Heneiddio'n dda

5 Camau nesaf

Cyflwynwyd Prif Ganfyddiadau a Phrif Argymhellion Rhan 2 i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 4 Mehefin 2015. Ystyriwyd sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu, yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, Pennaeth dros dro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a chynrychiolwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Fe gynhwysir y sylwadau hynny yn yr Adroddiad terfynol yma.

Byddaf yn mynychu cyfarfod nesaf y Fforwm Sirol (cydgyfarfod rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd) i ateb unrhyw gwestiynau pellach, a bydd y Fforwm Sirol yn llunio Cynllun Gweithredu i ymateb i'r Argymhellion.

6 Diolch

Dymunaf nodi fy niolch a'm gwerthfawrogiad i'm cyd-gynghorwyr ar yr Ymchwiliad am eu hymroddiad a'u cefnogaeth; ac i'r holl swyddogion a gwirfoddolwyr. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni'r ymchwiliad heb eu cydweithrediad a'u cyfraniadau allweddol.

Diolch yn fawr,

Cynghorydd Peter Read

Cadeirydd yr Ymchwiliad
Mehefin 2015

1. **Prif Ganfyddiadau**

- 1.1 **Canfyddiad 1** - Gwelir bod **Gwynedd yn perfformio'n dda** ar y cyfan o ran cymhariaeth cenedlaethol ar y mesurydd o Drosglwyddo Cleifion yn amserol o'r Ysbyty i'r Gymuned.
- 1.2 **Canfyddiad 2** - Gwelwyd bod **y Gwasanaeth Broceriaeth yn gweithio'n effeithiol** ar y cyfan gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a Darparwyr mewnol ac allanol yn canmol y gwasanaeth.
- 1.3 **Canfyddiad 3** - Bod cleifion yn cael eu trin yn yr Ysbyty am gyfnod eu salwch heb Gynllun Gofal a bod hyn yn arwain at ruthro i lunio **Cynllun Gofal** cyn eu rhyddhau i'r gymuned gan ei gwneud yn anodd i baratoi ar gyfer cynllunio gofal yn y gymuned.
- 1.4 **Canfyddiad 4** - Mae potensial i gynyddu'r defnydd o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y **Trydydd Sector** ond mae diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau yn sylweddol.
- 1.5 **Canfyddiad 5** - Er bod gwelliant yn y trefniadau o safbwynt rhyddhau cleifion ar y **penwythnosau**, mae lle i wella hyn ymhellach.
- 1.6 **Canfyddiad 6** - Nid oes trefniant gyda Gweithwyr Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion o safbwynt cleifion sy'n cael eu rhyddhau o **Ysbyty Bronglais** i Dde Gwynedd.
- 1.7 **Canfyddiad 7** - Er gwaethaf enghreifftiau o drefniadau o ansawdd uchel a dderbyniodd gydnabyddiaeth eang, mae'r sefyllfa ym **Meirionnydd** yn gyffredinol yn destun pryder, yn benodol oherwydd bod cleifion yn cael eu cyfeirio i 3 Uned Argyfwng mewn tri lleoliad gwahanol a phellennig yn Aberystwyth, Bangor a Wrecsam.
- 1.8 **Canfyddiad 8** - Canfuwyd bod **prinder meddygon teulu a nyrsys** yn argyfyngus mewn rhai ardaloedd ac yn creu anawsterau difrifol o safbwynt cynnal gofal yn y gymuned.
- 1.9 **Canfyddiad 9** - Nid oedd tystiolaeth bod y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses o lunio **Protocol Rhyddhau** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 1.10 **Canfyddiad 10** - Gwelwyd enghreifftiau o **fiwrocratiaeth** a diwylliant o lenwi ffurflenni a oedd yn tansilio ar adegau priod waith y nyrsys a gofalwyr.

2. Prif Argymhellion

Mae'r Adroddiad yn crynhoi'r materion allweddol y mae angen i *Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr* eu hystyried ymhellach a thalu rhagor o sylw iddynt ym marn aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

Gobeithio y bydd y pwyntiau a godir yn helpu i sicrhau cynnydd yn y maes hwn.

Gofynnir i'r Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr weithredu ar yr argymhellion isod drwy lunio Cynllun Gweithredu ar y cyd erbyn mis Medi 2015. Bydd yr aelodau yn gofyn am Adroddiad Cynnydd ym mis Mawrth 2016.

- 2.1 Argymhelliad 1 - Cyfarch rhai o wendidau'r trefniadau trosglwyddo cleifion gan roi sylw lle bo angen i lunio **Cynllun Gofal** newydd neu i addasu'r Cynllun Gofal cyfredol yn fuan ar ôl i'r claf gyrraedd yr Ysbyty.
- 2.2 Argymhelliad 2 - Cefnogi'r **Trydydd Sector** i gydlynu gwasanaethau ataliol a chefnogol arbenigol yn y gymuned a sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i ddiwallu hyn ac i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen o wasanaethau'r trydydd sector.
- 2.3 Argymhelliad 3 - Asesu llwyddiant y *Prosiect Gofal Canolradd* a sicrhau dilyniant yn dilyn terfynu'r grant i ddelio gydag unrhyw ddiffygion sy'n parhau o safbwynt cynnal gwasanaeth y timau rhyddhau ysbytai, a thimau cymunedol yn llawn dros y **penwythnosau**.
- 2.4 Argymhelliad 4 - Cydweithio gyda *Bwrdd Iechyd Hywel Dda* i gytuno trefniant gyda Thîm Rhyddhau **Ysbyty Bronglais** i ryddhau cleifion i Dde Meirionnydd.
- 2.5 Argymhelliad 5 - Dëellir bod gwaith yn mynd rhagddo i wella sefyllfa **prinder meddygon a nyrsys** a bod angen datblygu a chyfathrebu'r cynlluniau'n glir ac ar frys gan roi sylw arbennig i'r sefyllfa argyfyngus yn Nwyfor a Meirionnydd.
- 2.6 Argymhelliad 6 - Adolygu'r **Protocol Rhyddhau** gan ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys y cleifion a'r cyhoedd yn unol â Pholisïau a Chynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.
- 2.7 Argymhelliad 7 - Asesu llwyddiant y gwaith sy'n mynd rhagddo ar waith Lean/Vanguard yn Ysbyty Alltwen i gyfarch y **trefniadau biwrocraidd** presennol er mwyn rhyddhau amser staff i ddelio gyda'u prif ddyletsyddau o ddarparu gofal a nyrsio.

3. Perfformiad Cenedlaethol


Canfyddiad 1

Gwelir bod Gwynedd yn perfformio'n dda ar y cyfan o ran cymhariaeth cenedlaethol ar y mesurydd o Drosoglwyddo Cleifion yn amserol o'r Ysbyty i'r Gymuned.


TYSTIOLAETH

- 3.1 Mae un prif fesurydd cenedlaethol sydd yn mesur perfformiad y Cyngor o ran oedi wrth drosglwyddo o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol sef: **SCA/001**- *Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75oed neu drosodd.*
- 3.2 Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn rhywbeth y mae claf preswyl mewn ysbyty sy'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o'i ofal yn profi, ond yn cael ei rwystro rhag gwneud. Mae 'cam nesaf o ofal' yn delio â holl leoliadau addas y tu fewn a'r tu allan o'r GIG h.y. y cleifion hynny sydd ddim yn gallu cael eu rhyddhau o ofal y GIG, a hefyd cleifion sydd ddim yn gallu cael eu trosglwyddo o fewn y GIG at wely mwy addas.
- 3.3 Mae'r mesurydd felly yn ceisio darganfod cyfradd yr oedi mewn ysbytai i gleifion oherwydd materion gofal cymdeithasol yn unig, e.e. aros i fynd i gartref preswyl (ond nid cartref nyrsio) neu drefnu gofal cartref. Mae Gwynedd yn perfformio'n dda yn y mesurydd yma, ac yn wir yn 2013/14 roedd Gwynedd y 6ed yng Nghymru. Mae peth llithriad wedi ei wneud ers blwyddyn ddiwethaf, ond mae Gwynedd dal wedi perfformio'n dda.
- 3.4 Yn 2013/14 nodwyd ar 19 achlysur yn y 12 mis o'r flwyddyn oediad wrth drosglwyddo, mewn cymhariaeth â 14 achlysur yn 2012/13. Noder y gall yr un person gael ei gyfri ddwywaith os ydynt yn parhau i brofi oedi o un fis i'r llall. Er y cynnydd mae'r perfformiad yn parhau i fod yn gymharol dda ar lefel cenedlaethol.

3.5 Gweler y graff isod am berfformiad Gwynedd yn gymharol i Gymru gyfan. Mae Gwynedd wedi gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod cyfradd oedi wrth drosglwyddo oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn lleihau, ac fel y gwelir o'r graff uchod mae'r gyfradd wedi lleihau yn sylweddol ers 2007/08.



3.6 Gweler o'r graff isod bod Gwynedd yn ystod 2013-14 yn perfformio'n ffafriol iawn o gymharu gyda gweddill awdurdodau eraill Cymru.



4. Broceriaeth

Canfyddiad 2

Gwelwyd bod y Gwasanaeth Broceriaeth yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a Darparwyr mewnol ac allanol yn canmol y gwasanaeth.

TYSTIOLAETH

- 4.1 Mae'r gwasanaeth broceriaeth yng Ngwynedd wedi derbyn llawer o ganmoliaeth ers ei sefydlu yn Medi 2010. Y Tîm Broceriaeth yw'r pwynt cyswllt rhwng gweithwyr cymdeithasol, pobl hŷn sy'n cael gofal yn y cartref a darparwyr gofal yn y cartref. Mae'r tîm yn medru ymateb yn fwy effeithiol i bob cais am ofal cartref ac wedi rhyddhau amser gweithwyr cymdeithasol, a arferai drefnu pecynnau gofal yn flaenorol.
- 4.2 Yng nghynhadledd *Gwireddu'r Geiriau: Gwobrau'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2014* enillodd Tîm Broceriaeth Cyngor Gwynedd wobwr am sicrhau bod anghenion iaith y defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu nodi'n glir. Hyd y gwyddir, dyma'r unig Dîm Broceriaeth yn y sector gofal cartref sy'n darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ac sy'n cymryd camau ymarferol iawn i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei thargedu lle mae ei hangen. Mae darparwyr felly yn gynyddol ymwybodol o'r ffaith na fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw wyriadau oddi wrth ei rwymedigaethau cytundebol, sef bod yn rhaid i ddarparwyr fodloni gofynion *Mwy na geiriau*.
- 4.3 Mae'r gwasanaeth broceriaeth hefyd wedi bod yn drefn effeithiol o reoli a datblygu'r farchnad gofal cartref gan gynyddu'r ddarpariaeth sector annibynnol yn sylweddol ers sefydlu'r gwasanaeth.
- 4.4 Mae'r gwasanaeth broceriaeth wedi datblygu adroddiad rheolaethol misol sy'n eu cynorthwyo i gadw golwg ar berfformiad y gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys nodi'r cyfeiriadau newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod, rhaniad pecynnau yn ôl nifer oriau wythnosol a rhaniad pecynnau newydd i ddarparwyr.

- 4.5 Gweler o'r tabl isod rhaniad pecynnau newydd i ddarparwyr ym mis Medi 2014. Gweler o'r tabl bod 21 pecyn newydd wedi ei roi i'r ddarpariaeth fewnol a 40 i ddarparwyr allanol.

Rhaniad pecynnau newydd i ddarparwyr

O'r cyfeiriadau a ddaeth i sylw Broceriaeth dyma'r rhaniad o'r cynlluniau hynny a gomisiynwyd yn llwyddiannus ac i ba Ddarparwr Gofal Cartref.

Yn ogystal, fe gomisiynwyd y pecynnau canlynol:

1 pecyn Gofal Canolraddol ym Meirionnydd;

1 pecyn Galluogi ym Meirionnydd;

Angen hefyd nodi mai pecynnau a dderbyniwyd gan gwmnïau yw'r isod, gall fod pecynnau wedi eu cynnig i gwmni ac wedi eu gwrthod gan nad oeddent yn gallu cyrraedd gofynion penodol y pecyn hwnnw. (Gweler tudalen nesaf)

Mis		Darparwr																					
		Abacare	Age Cymru	Anheddau	Carelink Homecare Services	Cartrefi Cymru	Seashells	Crossroads Care	Cymorth Llaw	Gofal Bro	Compass Care	Gofal Llyn	Independent Living	Inspired Assisted Living	Jane Lewis-Denbighshire	Lewis Jones Care	Mid Wales Home Care	Plas Garnedd	Regard Partnership	Allied Health Care (Bangor)	Allied Health Care (Dolgellau)	TLC (Llanidloes)	Mewnol
MEDI 2014	Ar	3	1	3	0	3	0	1	0	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	8
	Dw	1	0	0	0	0	0	3	3	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	8
	Me	1	0	2	0	0	7	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	7	0	5
	Cyf.	5	1	5	0	3	7	4	3	5	0	0	0	0	0	0	0	0	0	7	0	21	


Mae ffigyrau Allied Healthcare am mis Hydref yn cynnwys 6 pecyn sydd wedi cael eu trosglwyddo o cwmni gofal TLC gan fod y staff wedi gadael i ymuno efo Allied Healthcare. Argyfwng wedi creu'r angen i drosglwyddo'r pecynnau ar frys.

Ni chynhwysir achosion Canolraddol na Galluogi (a ddarparwyd gan Darparu Mewnol) yn y ffigyrau hyn gan nad yw'r rhain yn cael eu comisiynu gan Broceriaeth. Serch hynny, mae'r ffigyrau yn cynnwys pecynnau Canolraddol a Galluogi sydd wedi eu comisiynu gan Broceriaeth i'r sector breifat pan nad oedd capasiti i dderbyn y pecynnau gan Darparu Mewnol.

- 4.6 O'r cyfeiriadau a ddaeth i sylw Broceriaeth dyma'r rhaniad o'r cynlluniau gofal yn ôl nifer yr oriau'r wythnos oedd i'w comisiynu.

Mis	Oriau wythnosol							Pecynnau cysgu mewn
	5 neu llai	5.1 - 10	10.1 - 15	15.1 - 20	20.1 - 25	25.1 neu mwy		
HYDREF 2014	84	28	21	6	1	2	2	

Rhaniad oriau wythnosol Hydref 2014



5. Cynllun Gofal

Canfyddiad 3

Bod cleifion yn cael eu trin yn yr Ysbyty am gyfnod eu salwch heb Gynllun Gofal a bod hyn yn arwain at ruthro i lunio Cynllun Gofal cyn eu rhyddhau i'r gymuned gan ei gwneud yn anodd i baratoi ar gyfer cynllunio gofal yn y gymuned.

Argymhelliad 1

Cyfarch rhai o wendidau'r trefniadau trosglwyddo cleifion gan roi sylw lle bo angen i lunio Cynllun Gofal newydd neu i addasu'r Cynllun Gofal cyfredol yn fuan ar ôl i'r claf gyrraedd yr Ysbyty.

TYSTIOLAETH

- 5.1 Un gwendid yn y ffurflen *Beth sydd yn bwysig* (sef ffurflen asesiad integredig sy'n cael ei defnyddio gan lechyd a Gwasanaethau. Cymdeithasol i gyfeirio ymlaen) yw nad oes lle i nodi'r dyddiad y disgwylir rhyddhau o'r ysbyty arni.
- 5.2 Bu peth camddealltwriaeth am arian gwasanaeth canolraddol yn Arfon eleni. Mae hyn wedi achosi peth anhawster o safbwynt Gofal Canolradd a Galluogi. Mae'r cyfathrebu'n methu weithiau, yn bennaf am fod y cysylltu'n digwydd drwy 'dîm rhithwir' (virtual team). Mae angen i'r nyrsys arwain y gwaith o rannu'r wybodaeth.
- 5.3 Mae rhai anawsterau yn codi weithiau gydag oediad mewn darparu offer pwrpasol i unigolion.
- 5.4 Er mwyn osgoi unrhyw oedi mae angen cynllun gofal ac unrhyw offer angenrheidiol fod yn ei le cyn i'r unigolyn fynd adref. I alluogi hyn i ddigwydd mae angen dechrau ar y cynllun gofal yn syth pan mae'r person wedi cyrraedd yr ysbyty. Nid yw hyn bob amser yn digwydd yn syth ar hyn o bryd.
- 5.5 Mewn rhai achosion nid yw pobl weithiau yn sylweddoli gwir effaith cyflyrau fel strôc nes iddynt ddychwelyd adref, gan eu bod yn derbyn cefnogaeth yn yr ysbyty gan nyrsys, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Mae hefyd posib bod unigolyn yn dioddef o fwy nag un cyflwr, ac mae angen adnabod angen mwyaf yr unigolyn.
- 5.6 Yn ogystal â hyn mae anawsterau yn codi oherwydd nad yw pobl yn adnabod gweithwyr y trydydd sector fel pobl broffesiynol, ac o'r herwydd yn gyndyn i rannu gwybodaeth lawn gyda'r Gymdeithas Strôc. Mae hyn yn gallu achosi anawsterau oherwydd bod angen yr holl wybodaeth o'r sefyllfa ac nid yn unig y manylion craidd.
- 5.7 Nodwyd pryder gan swyddogion y Groes Goch er yn y mwyafrif o achosion bod anghenion yr unigolyn yn cael eu cyfarch yn effeithiol gan yr amrywiol weithredoedd a

gwasanaethau a ddarperir gan yr amrywiol sefydliadau, nad oedd yma ddull clir ac integredig o asesu angen y person ar y cyd â sefydliadau eraill.

- 5.8 Y drefn ar hyn o bryd yw bod staff Tîm Cyngori ac Asesu neu Weithiwr Cymdeithasol yn diweddarur wybodaeth am y claf ar system electronig o'r enw RAISE. Mae'r prosiect (Un Pwynt Cyswllt) yn edrych ar sut i ddatblygu'r system data electronig a fyddai'n medru cael ei gyd ddefnyddio gan y gwasanaeth iechyd hefyd yn sgil datblygu gwaith llawn integredig i'r dyfodol. Yr amcan yw gwneud y gorau i'r claf (gan ystyried iechyd a gofal) heb oedi ac i sicrhau cefnogaeth gynnar i arbed argyfwng a cholled o annibyniaeth i'r unigolyn.
- 5.9 Pan fo problem yn codi neu gŵyn yn cael ei dderbyn e.e. iechyd yn anfon unigolyn adref yn hwyr yn y nos heb fod trefniadau mewn lle, yn arferol byddai Swyddog Eiriolaeth yr elusen *Age Cymru* yn delio â'r mater ond ei fod yn ddibynnol ar yr achos.
- 5.10 Un o'r meysydd sy'n peri pryder arbennig yw maes dementia. Nid oes darpariaeth ddigonol a phwrpasol ar gael yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Yn wir, mae'n sefyllfa argyfyngus. Un o nodweddion hyn yw bod cleifion yn aros yn hirach na'r angen yn yr ysbyty gan gyfrannu at ddiffyg gwlâu at ddefnydd triniaeth aciwt. Does dim digon o ddarpariaeth gwlâu nyrsio na phreswyl arbenigol.
- 5.11 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe gaewyd *Ward Heulwen* yn *Ysbyty Gwynedd* a oedd yn arbenigo mewn gwaith dementia ac fe gyfeirir pob achos dementia at *Ysbyty Cefni* yn Llangefni. Caewyd un o wardiau *Ysbyty Cefni* yn ogystal.
- 5.12 Un o'r elfennau sy'n cyfrannu at y pwysau yw diffyg nyrsys sy'n arbenigo mewn gofal dementia.
- 5.13 Mae natur cytundebau rhan amser rhai gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn golygu bod cydlynu'r gwaith yn anodd ar adegau. Weithiau bydd dyddiau neu wythnosau'n mynd heibio cyn cael ymateb.
- 5.14 Mae peth problemau'n gallu codi gyda pheccynnau cymhleth o ofal. Er enghraifft lle bydd galw ar y cwmni (Abacare) i ddarparu anghenion ychwanegol fel 'peg feeds' a phrofi gwaed y person sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn gallu arwain at gostau ychwanegol heb gyllid ar eu cyfer.
- 5.15 Weithiau bydd cleifion yn datgan yn *Ysbyty Gwynedd* nad ydynt angen cefnogaeth i ddychwelyd adref, ond unwaith mae'r realiti o gyrraedd adref yn taro, maen nhw neu aelod o'r teulu yn sylweddoli eu bod angen cefnogaeth. Yna byddent yn cysylltu ag un o'r Timoedd ardal a bydd angen gwneud trefniadau brys bryd hynny.
- 5.16 Yn *Ysbyty Alltwen* rhai anawsterau wedi codi oherwydd diffygion cyfathrebu rhwng staff o fewn y ward.
- 5.17 Yn gyffredinol arhosiad claf yn yr ysbyty cymunedol yn tueddu i fod yn hirach nag yn *Ysbyty Gwynedd* a hyn yn golygu bod mwy o amser i gynllunio ar gyfer rhyddhau.

- 5.18 Nodwyd bod diffyg ymwybyddiaeth gan staff lechyd am y ffurflen newydd (*Set Data Craidd lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Gogledd Cymru*). Mae rhai aelodau o staff lechyd yn dal i lenwi'r hen ffurflen gan nad ydynt yn ymwybodol bod y ffurflen wedi ei baratoi ar y cyd efo lechyd.
- 5.19 Bod rhai Doctoriaid a Nyrsys yn cysylltu â'r *Tîm Cyngori ac Asesu Oedolion* i gael ffrâm gerdded er mai lechyd sydd yn darparu.
- 5.20 Y byddai'n fuddiol os byddai staff lechyd efo gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig wrth siarad efo unigolion yn yr ysbytai cymunedol cyn i'r unigolyn fynd adref.
- 5.21 Nodwyd y byddai'n hynod werthfawr pe byddai systemau TG y Cyngor ac lechyd yn siarad efo'i gilydd er hwyluso mynediad i wybodaeth.
- 5.22 Os bydd anghenion y cleient yn newid yn sylweddol ar ôl bod yn yr Ysbyty, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn cau'r Pecyn Gofal yn *Ysbyty Gwynedd*, a bydd Pecyn Gofal newydd yn cael ei agor ar gyfer y cleient yn *Ysbyty Bryn Beryl*.
- 5.23 Mae hyn yn gallu creu anawsterau ac aneglurder i'r cleient a staff *Ysbyty Bryn Beryl*. Mi all hyn olygu bod gweithiwr cymdeithasol newydd yn llunio'r Pecyn Gofal newydd. Byddai'n well parhau gyda'r un Pecyn Gofal a'r un Gweithiwr Cymdeithasol.
- 5.24 Pan fydd Pecyn Gofal newydd yn cael ei greu mi all hyn gymryd hyd at bythefnos. Canlyniad hyn yw bod cleient yn gallu aros yn rhy hir yn yr ysbyty cyn trosglwyddo adref.
- 5.25 Byddai cael un Gweithiwr Cymdeithasol yn delio gydag *Ysbyty Bryn Beryl* yn well.

6. Trydydd Sector

Canfyddiad 4

Mae potensial i gynyddu'r defnydd o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Trydydd Sector ond mae diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau yn sylweddol.

Argymhelliad 2

Cefnogi'r Trydydd Sector i gydlynu gwasanaethau ataliol a chefnogol yn y gymuned a sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i ddiwallu hyn ac i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen o wasanaethau'r trydydd sector.

TYSTIOLAETH

- 6.1 Mae angen ystyried yn fanwl gyda nifer o sefydliadau yn cynnwys awdurdodau lleol, Gwasanaeth Ambiwlans, sefydliadau'r Trydydd Sector ac eraill. Mae angen ystyried sut orau i ddarparu gwasanaethau cludiant, gwasanaethau gofal cartref a phreswyl, a gofal yng nghartrefi pobl. Gofynnir am arweiniad clir a chadarn gan y Bwrdd Iechyd ar y materion yma.
- 6.2 Dylid llunio cynllun integredig ar draws y gogledd yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd sy'n cynnwys darparwyr cludiant cymunedol.
- 6.3 Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i gynllunio a datblygu gwasanaethau effeithiol ar draws Gogledd Cymru.
- 6.4 Mae cyswllt da rhwng gweithwyr y *Gymdeithas Strôc* gyda'r Bwrdd Iechyd, ac yn enwedig gyda'r wardiau strôc yn *Ysbyty Gwynedd*, *Ysbyty Maelor*, *Wrecsam* ac *Ysbyty Bronglais*, Aberystwyth.
- 6.5 Mae ychydig o fewnbwn gan Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gyda'r Tîm Oedolion yn cysylltu os mae unigolyn wedi cael strôc cyn iddynt ddod i gysylltiad gyda hwy.
- 6.6 Yn aml mae pobl yn mynd yn ddryslyd o ran pwy y dylent gysylltu gyda neu pwy maent wedi bod yn siarad gyda, gan fod llawer o bobl yn cael mewnbwn i sefyllfa'r claf. Mae hyn yn cynnwys pobl yn yr ysbyty ac yn y gymuned.
- 6.7 Mewn rhai achosion nid yw pobl yn sylweddoli gwir effaith cyflyrau fel strôc nes iddynt ddychwelyd adref, gan eu bod yn derbyn cefnogaeth yn yr ysbyty gan nyrsys, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Mae hefyd posib bod unigolyn yn dioddef o fwy nag un cyflwr, ac mae angen adnabod angen mwyaf yr unigolyn.
- 6.8 Un o'r anawsterau mwyaf yw'r ffaith mai dim ond un swyddog gan y *Gymdeithas Strôc* sydd ar gael ar draws Gwynedd a Môn. Mae'r swyddog yma yn cael ei hariannu trwy BIPBC a gan Gyngor Ynys Môn, nid yw Cyngor Gwynedd wedi cyfrannu tuag at y gwasanaeth ers rhyw dair blynedd. Roedd arfer bod swyddog oedd yn gwasanaethu Ynys

Môn ac Arfon a swyddog arall ar gyfer Meirionydd a Dwyfor. Mae sefyllfa ddaearyddol y sir yn gallu bod yn anodd. Oriau craidd y gwasanaeth yw 25awr yr wythnos ar draws Gwynedd a Môn.

- 6.9 Mae trafniadaeth yn broblem i bobl, oherwydd ar ôl cael strôc nid yw pobl yn cael gyrru am fis. Yn ogystal â hyn mae rhaid iddynt fynd i gael eu hasesu mewn Canolfan Asesu yn *Glan Clwyd* cyn y mae modd iddynt yrru car. Mae pobl felly yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu deulu a ffrindiau sydd yn gallu bod yn anodd.
- 6.10 I'r dyfodol byddai'r *Gymdeithas Strôc* yn hoffi gwneud mwy o waith ataliol, fel yr hyn sy'n cael ei drefnu ar y cyd gyda CCG yn Bermo. Sef digwyddiad fydd yn codi ymwybyddiaeth pobl o strôc a'r ffactorau sydd yn effeithio ar risg bobl o gael strôc a hefyd cymryd pwysau gwaed pobl.
- 6.11 Ar hyn o bryd mae diffyg dealltwriaeth o beth ydi strôc a'r effaith cudd y gall strôc ei gael ar unigolyn yn amlwg gyda rhai swyddogion y Cyngor. Byddai darparu hyfforddiant ar effaith strôc a'r gwasanaeth mae'r *Gymdeithas Strôc* yn ei gynnig yn fuddiol.
- 6.12 Yn ogystal â hyn mae anawsterau yn codi oherwydd nad yw pobl yn adnabod gweithwyr y trydydd sector fel pobl broffesiynol, ac o'r herwydd yn gyndyn i rannu gwybodaeth lawn gyda'r Gymdeithas. Mae hyn yn gallu achosi anawsterau oherwydd bod angen yr holl wybodaeth o'r sefyllfa ac nid yn unig y manylion craidd.
- 6.13 Y *Groes Goch* - Yng Ngwynedd, mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n bennaf gyda phobl hŷn er mwyn eu galluogi i adennill annibyniaeth yn dilyn salwch neu i gadw'n actif.
- 6.14 Mae trefniadau cyllido pob awdurdod lleol ar draws gogledd Cymru yn wahanol iawn. Ceir cyd-gomisiynu neu gomisiynu gan awdurdodau lleol. Yng Ngwynedd, nid ydyw Cyngor Gwynedd yn comisiynu gwaith gan y Groes Goch. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig gomisiynydd.
- 6.15 Mi allai weithio'n well petai'r swyddogaethau a gweithgareddau sydd angen gan wirfoddolwyr yn cael eu hadnabod a'u diffinio'n glir mewn dull integredig pa bynnag sefydliad sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth. Gellid cyflawni hyn drwy ddod â sefydliadau at ei gilydd mewn consortia i ddarparu'r gwasanaeth. Yr elfen allweddol yw gallu cydweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill. Enghraifft o hyn yw Rhwydwaith Cyfeillio Gwynedd ac Ynys Môn sy'n cael ei hwyluso gan *Gynllun Ffrindia*, Mantell Gwynedd.
- 6.16 Mae Grŵp Ymgysylltu (Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth) yn cael ei gadeirio gan yr Uwch Reolwr Busnes. Mae'n cydlynu materion ymgysylltu o ran prosiectau penodol a sicrhau rhaglenni gwaith e.e. maes anabled dysgu
- 6.17 Mae'r *Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth* yn gyfrifol am daflenni. Mae'r taflenni cyfredol yn cynnwys y canlynol:

Taliadau Uniongyrchol , Gwrando, Ymateb, Gwella, Cefnogaeth Galluogi, Urddas mewn Gofal, Talu am Wasanaethau Gofal Dibreswyl (2014-15), Sut i gael y Cymorth rydych chi angen.

- 6.18 Rôl Rheolwr Trosglwyddo Partneriaeth mewn Gofal ym mis Awst 2014 oedd arwain gwaith *Un Pwynt Mynediad* sy'n gynllun gweithredu'n integredig rhwng y sector gyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol er mwyn gweithio'n agosach i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi oedolion i edrych ar ôl eu hunain yn well, cryfhau eu llesiant ac sy'n helpu iddynt aros mor annibynnol â thu hwnt i wasanaethau mor hir â phosib. Mae o hefyd yn dilyn proses asesiad i ganiatáu bod y rhai sydd angen mynediad at wasanaethau yn derbyn hyn cyn gynted a bo modd.
- 6.19 Roedd y Swyddog yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect ar ran Gwynedd i ddatblygu'r gwaith lleol a hefyd ar lefel rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru . Mae peth oedi ar elfennau o'r gwaith lleol ar hyn o bryd gan fod newidiad sylfaenol yn cymryd lle o fewn yr Adran ac mae'r Uwch Reolwr a oedd yn gyfrifol am y prosiect i ffwrdd ar gyfnod o salwch. (Deallir bod swydd y Rheolwr Prosiect hefyd wedi ei dileu erbyn hyn).
- 6.20 Cafwyd peth awgrymiadau gan rai a holwyd nad oedd y ddarpariaeth trydydd sector yn medru darparu yr hyn sydd ei angen ar y defnyddiwr ar yr adeg y mae ei angen.
- 6.21 Gweithredir trefn broceriaeth gyda darparwyr yn y sector gyhoeddus a phreifat ar gyfer pecynnau gofal yn y gymuned. Byddai sefydlu trefn o'r fath ar gyfer darparwyr y trydydd sector yn ddefnyddiol. Yn y drefn broceriaeth, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn cynnal asesiad o anghenion y defnyddiwr ac yna'n gofyn i'r Brocer pa opsiynau sydd ar gael sy'n cyfateb i angen y defnyddiwr ac yn eu cyfeirio at y gwirfoddolwr.
- 6.22 Yn hanesyddol roedd cyfeiriadau am ofal canolradd hefyd yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y Gwasanaeth Darparu mewnol, ond bellach oherwydd diffyg capasiti mae mwy o gyfeiriadau'n cael eu cyfeirio at Broceriaeth.
- 6.23 Bydd y ddau dîm sy'n asesu a chefnogi (Ardal Dwyfor) yn cyfeirio cleientiaid i gael cymorth gan y gwahanol fudiadau sy'n cynnig gwasanaeth gan gynnwys gwasanaeth siopa.
- 6.24 Y byddai'n fuddiol os byddai staff lechyd efo gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig wrth siarad efo unigolion yn yr ysbytai cymunedol cyn i'r unigolyn fynd adref. (Gellir adeiladu ar y gwaith sydd ar y gweill drwy'r prosiect 'The Big Room' yn *Ysbyty Gwynedd*.)
- 6.25 Bod y drefn un pwynt cyswllt yn dod yn fuan ac y gobeithir y byddai'n ei gwneud yn haws i unigolion dderbyn gwybodaeth.
- 6.26 Ei fod yn hynod bwysig bod unigolion yn ymwybodol o fanylion cyswllt y tîm.

- 6.27 Cludiant y *Groes Goch* - Er nad oes capasiti i gynyddu gweithgaredd heb fwy o adnoddau, mae'n bryder hefyd bod cyn lleied o ymwybyddiaeth am y gwasanaeth ymhlith staff yr ysbyty ac yn gyffredinol. Gallai staff y Bwrdd Iechyd a Gweithwyr Cymdeithasol y Cyngor ehangu'r ymwybyddiaeth yma.
- 6.28 Mae angen edrych ar drefniadau caffael a chytundeb lefel gwasanaeth yn ofalus er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth. Yn y diwedd mae helpu cadw pobl yn annibynnol o fudd i'r unigolyn ac i'r gwasanaeth iechyd-gofal yn gyffredinol.
- 6.29 Roedd rhai o'r farn nad ydi'r Trydydd Sector yn medru cynnig llawer o opsiynau oherwydd bod angen gofal arbenigol gan amlaf, megis darparu gofal personol, symud a thrin cleifion, ac yn y blaen. Nodwyd ar y llaw arall mai'r realiti yw bod y Trydydd Sector yn cynnig gofal arbenigol megis *Hosbis yn y Cartref, nyrso yn y Cartref, Hosbis Gofal Dydd a Therapi Cyflenwol Cymunedol* ac amryw o ddarparwyr eraill.
- 6.30 Nododd fod angen cryfhau'r cysylltiad rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd trwy farchnata'r ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig yn y *Canolfannau Heneiddio'n Dda/Gwasanaeth Byw'n Dda*, er mwyn cael mwy o fynychwyr. Yn ogystal, mae angen siarad pellach gyda mudiadau gwirfoddol, er mwyn cynyddu'r cymorth sydd ar gael.
- 6.31 Nododd y byddai ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol yn cryfhau'r ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir. Byddai hynny'n hwyluso cyfeirio unigolion at y ddarpariaeth sydd ar gael yn y *Canolfannau Heneiddio'n Dda/Gwasanaeth Byw'n Dda*. Mae trefniadau ar y gweill i godi ymwybyddiaeth timau gwasanaethau lleol.
- 6.32 Mae'n hanfodol bod Gofalwyr yn derbyn cefnogaeth i'w cynorthwyo i ymdopi â'r gofynion gofalu am eu hanwyliaid. Mae nifer o fudiadau'r Trydydd Sector yn chwarae rôl bwysig yn hyn o beth – e.e. swyddog o *Wasanaeth Cynnal Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd*.
- 6.33 Nid oes darpariaeth am Ofal Lliniarol na darpariaeth breswyl (adeilad pwrpasol) yng Ngwynedd fel *Hosbis Dewi Sant* yn Llandudno.
- 6.34 Mae angen gweithio'n agos gyda'r Trydydd Sector i sicrhau bod gan y sector gapasiti digonol i ddiwallu anghenion.
- 6.35 Mae rôl allweddol gan y Trydydd Sector o safbwynt darparu cludiant cymunedol, ac mae angen cydlynu'r ddarpariaeth yn well.
- 6.36 Mae mudiadau'r Trydydd Sector yn meddu ar arbenigedd a gwybodaeth am rai cyflyrau penodol. Mae'n hanfodol bod y rhai sydd angen yn cael eu cyfeirio atynt am wybodaeth a chynghor yn amserol – e.e. *Cymdeithas Alzheimers, Parkinson's, Y Gymdeithas Strôc* a mudiadau sy'n gweithio ym maes canser.
- 6.37 Mae'r prosiect *Heneiddio'n Dda* yn weithredol yn *Encil y Coed* unwaith yr wythnos o 9.30 y bore hyd 4.30 y pñawn.

- 6.38 Mae'r *Gwasanaeth Byw'n Dda* sydd yn weithredol yng Nghricieth trwy roi cyfle i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Ar hyn o bryd mae sesiynau Technoleg Gwybodaeth yn y Llyfrgell gyferbyn ag Encil y Coed, a sesiwn Ymarfer Corff Cadair Ysgafn yn y Ganolfan. Mae trefniadau ar y gweill i gynnig cinio dau gwrs amser cinio, a sesiynau cerdded. Mae bwriad, hefyd, i gynnig sesiwn pampro a thrin traed a sesiwn arlunio a chreffft yn ystod Ionawr 2015.
- 6.39 Sylwyd mai merched yn unig oedd yn mynychu'r sesiwn a welwyd, a'u bod oll yn bur ystwyth a heini. Er hynny, mae'r sesiwn yn dda i gynnal iechyd a ffitrwydd corfforol y rhai sy'n mynychu. Efallai y byddai'n syniad da ceisio targedu mwy o'r henoed sy'n cael trafferthion gyda symudedd. Hefyd, tybed pam nad oedd dynion yn mynychu'r sesiwn?
- 6.40 Nododd y Cydlynnydd fod perthynas dda iawn rhwng *Age Cymru* a Chyngor Gwynedd, ond fod lle i gryfhau'r berthynas rhwng y Bwrdd Iechyd ac *Age Cymru*. Nododd fod angen gwell perthynas gyda'r Feddygfa gan ei bod y drws nesaf i'r Ganolfan, ond mae trefniadau ar y gweill i gryfhau'r cysylltiad rhwng y Meddygfeydd, Canolfannau Iechyd, a'r *Canolfannau Heneiddio'n Dda/Gwasanaeth Byw yn Dda*.
- 6.41 Nodwyd bod angen cryfhau'r cysylltiad rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd trwy farchnata'r ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig yn y *Canolfannau Heneiddio'n Dda/Gwasanaeth Byw yn Dda*, er mwyn cael mwy o fynychwyr. Yn ogystal, mae angen siarad pellach gyda mudiadau gwirfoddol, er mwyn cynyddu'r cymorth sydd ar gael.
- 6.42 Nodwyd y byddai ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol yn cryfhau'r ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir. Byddai hynny'n hwyluso cyfeirio unigolion at y ddarpariaeth sydd ar gael yn y *Canolfannau Heneiddio'n Dda/Gwasanaeth Byw'n Dda*. Mae trefniadau ar y gweill i godi ymwybyddiaeth timau gwasanaethau lleol.
- 6.43 Er bod yma ddarpariaeth dda sy'n cael ei werthfawrogi a'i fwynhau gan y rhai sy'n mynychu, croesewir y ffaith fod cynlluniau i ehangu'r gweithgareddau yn fuan. Mae gwir angen marchnata'r hyn sydd ar gael, er mwyn i lawer mwy o rai dros 50 oed gael manteisio ar y ddarpariaeth.

7. Penwythnos

Canfyddiad 5

Er bod gwelliant yn y trefniadau o safbwynt rhyddhau cleifion ar y penwythnosau, mae lle i wella hyn ymhellach.

Argymhelliad 3

Asesu llwyddiant y prosiect Gofal Canolradd a sicrhau dilyniant yn dilyn terfynu'r grant i ddelio gydag unrhyw ddiffygion sy'n parhau o safbwynt cynnal gwasanaeth y timau rhyddhau ysbytai a thimau cymunedol yn llawn dros y penwythnosau.

TYSTIOLAETH

- 7.1 Mae peilot yn cael ei redeg ar hyn o bryd gydag arian trwy'r Grant Gofal Canolradd (ICF) lle mae swyddog maes Gofal a Thrwsio yn rhoi cymorth i unigolion symud ymlaen i Dai Gofal Ychwanegol Cae Garnedd, Bangor .
- 7.2 Os yw'r peilot yn llwyddiant byddai gallu cynnig y gwasanaeth hwn i fwy o drigolion Gwynedd o fudd. Bydd y gwasanaeth yn edrych ar opsiynau eraill hefyd h.y. tŷ llai, tŷ yn nes at y teulu, tŷ gyda warden ar safle.
- 7.3 Yn ychwanegol i Uned Lleu (i bobl sy'n dod allan o'r ysbyty ac sydd angen ychydig mwy o amser i ddod dros eu cyfnod yn yr ysbyty) ym Mhenygroes, trwy bres Grant Gofal Canolradd (ICF) mae'r gwasanaeth yn agor 3 Uned ychwanegol o'r fath, 2 ym Meirionnydd yng nghartrefi *Llys Castan a Bryn Blodau* ac un yn Nwyfor yng Nghartref *Plas y Don*.
- 7.4 Mae rhai anawsterau yn codi weithiau gydag oediad mewn darparu offer pwrpasol i unigolion.
- 7.5 Er mwyn osgoi unrhyw oedi mae angen cynllun gofal ac unrhyw offer angenrheidiol fod yn ei le cyn i'r unigolyn fynd adref. I alluogi hyn i ddigwydd mae angen dechrau ar y cynllun gofal yn syth pan mae'r person wedi cyrraedd yr ysbyty. Nid yw hyn bob amser yn digwydd yn syth ar hyn o bryd.
- 7.6 Ar hyn o bryd pobl 65 oed a hŷn sydd yn derbyn ein gwasanaeth galluogi. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i bobl sydd yn 60 oed a hŷn i'r dyfodol.
- 7.7 Mae Caffi Strôc wedi ei sefydlu yn Arfon er cryn amser ym Mangor a Chaernarfon. Gwirfoddolwyr bellach sy'n rhedeg y rhain. Mae'r Gymdeithas wrthi yn sefydlu Caffi Strôc ym Meirionnydd, Blaenau Ffestiniog a Dwyfor, Pwllheli, ar hyn o bryd gyda phres trwy'r Grant Gofal Canolradd (ICF). Pres dros dro am flwyddyn yw hon, ond y gobaith ydi y bydd posib i wirfoddolwyr rhedeg y rhain i'r dyfodol unwaith y byddant wedi eu sefydlu.

- 7.8 Pan fo problem yn codi neu gŵyn yn cael ei dderbyn e.e. iechyd yn anfon unigolyn adref yn hwyr yn y nos heb fod trefniadau mewn lle, yn arferol byddai Swyddog Eiriolaeth yr elusen (Age Cymru) yn delio â'r mater ond ei fod yn ddibynnol ar yr achos.
- 7.9 Yn hanesyddol roedd cyfeiriadau am ofal canolradd hefyd yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y Gwasanaeth Darparu mewnol, ond bellach oherwydd diffyg capasiti mae mwy o gyfeiriadau'n cael eu cyfeirio at Broceriaeth.
- 7.10 Yn gyffredinol bydd tua 4 neu 5 cyfeiriad yn fisol ar draws y Sir o safbwynt gofal canolradd; gyda thua 9 y mis o safbwynt galluogi yn dod trwy'r gwasanaeth Broceriaeth. Mae'r niferoedd o gyfeiriadau am y math yma o wasanaeth wedi cynyddu dros y 6 mis diwethaf (Medi 2014).
- 7.11 Un anhawster yw ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar brynhawn Dydd Gwener i ollwng cleifion yn fyr rybudd dros y penwythnos. Mae angen mwy o rybudd er mwyn cynnal asesiad cyn rhyddhau cleifion.
- 7.12 Un rhwystr arall yw bod y Storfa yn yr Ysbyty ar gau ar y penwythnos, felly, hyd yn oed ar ôl cynnal asesiad, nid oes modd cael yr offer priodol ar gyfer gollwng y claf.
- 7.13 Mae natur cytundebau rhan amser rhai gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn golygu bod cydlynu'r gwaith yn anodd ar adegau. Weithiau bydd dyddiau neu wythnosau'n mynd heibio cyn cael ymateb.
- 7.14 Mae son am ymestyn y gwasanaeth i roi cefnogaeth 7 diwrnod yr wythnos. Dim llawer o ddiddordeb gan y gweithlu presennol mewn gweithio ar benwythnosau.

8. Ysbyty Bronglais

Canfyddiadau 6 a 7

Nid oes trefniant gyda Gweithwyr Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion o safbwynt cleifion sy'n cael eu rhyddhau o *Ysbyty Bronglais* i Dde Gwynedd. Yn ogystal, mae'r ffaith bod cleifion o Feirionnydd yn cael eu cyfeirio i dri lleoliad gwahanol yn Aberystwyth, Wrecsam a Bangor yn gallu cymhlethu'r sefyllfa.

Argymhelliad 4

Cydweithio gyda *Bwrdd Iechyd Hywel Dda* i gytuno trefniant gyda *Thîm Rhyddhau Ysbyty Bronglais* i ryddhau cleifion i Dde Meirionnydd.

TYSTIOLAETH

- 8.1 Mae elfen wledig ardal Dolgellau yn cael effaith ar nifer o faterion. Un agwedd benodol sydd wedi dod yn amlwg yw'r angen i wneud y mwyaf o fynychu Clinigau Ymgynghorwyr yn Nolgellau. Mae problemau wedi bod gyda'r Bwrdd Iechyd yn ganolog yn cyfeirio cleifion i Wrecsam ac *Ysbyty Gwynedd* yn hytrach nag i'r clinig yn Nolgellau.
- 8.2 Bydd swyddogion sy'n gweithio yn Wrecsam neu Bangor yn gosod cleifion i fynychu clinigau yn Wrecsam neu Bangor fel arfer er bod clinigau mwy cyfleus ar gael i gleifion lleol yn Nolgellau.
- 8.3 Canlyniad hyn yn aml yw bod cleifion yn cael anhawster i fynychu'r apwyntiad oherwydd y pellter a chymhlethdodau cludiant a threfniadau gofal ac ati.
- 8.4 Un ffordd hawdd o ddatrys hyn fyddai i'r swyddogion yn Wrecsam a Bangor edrych ar gôd post y claf er mwyn trefnu apwyntiad yn y man mwyaf cyfleus.
- 8.5 Gofynnir am gytuno gyda *Byrddau Iechyd Hywel Dda a Phowys a'r Gwasanaeth Ambiwllans* sy'n sicrhau bod cleifion o Dde Gwynedd ond yn cael eu cyfeirio i Dde Cymru pan fo angen hynny ar y claf.
- 8.6 Mae angen datganiad ar y cyd gydag *Ysbyty Bronglais* ynglŷn â mynediad i wasanaethau.
- 8.7 Mae angen ail edrych ar y bwriad o ganoli gwasanaethau Pelydr X, gan ystyried cynnal gwasanaeth yn *Ysbyty Tywyn* neu *Ysbyty Machynlleth*.
- 8.8 Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i gynllunio a datblygu gwasanaethau effeithiol ar draws Gogledd Cymru.
- 8.9 Nid oes gymaint o gartrefi preswyl/gofal ym Meirionnydd ac mae hyn yn gallu achosi problemau gyda chyfeiriadau nid yn unig sy'n dod o *Ysbyty Gwynedd*, ond o *Ysbyty Maelor*, Wrecsam ac *Ysbyty Bronglais* Aberystwyth.

- 8.10 Mae denu gwirfoddolwyr yn ne Gwynedd yn anodd. Maent wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd. Mae'n bosibl bod gormod o sefydliadau yn 'cystadlu' am yr un bobl i ddod yn wirfoddolwyr.
- 8.11 Mi allai weithio'n well petai'r swyddogaethau a gweithgareddau sydd angen gan wirfoddolwyr yn cael eu hadnabod a'u diffinio'n glir mewn dull integredig pa bynnag sefydliad sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth. Gellid cyflawni hyn drwy ddod â sefydliadau at ei gilydd mewn consortia i ddarparu'r gwasanaeth. Yr elfen allweddol yw gallu cydweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill. Enghraifft o hyn yw Rhwydwaith Cyfeillio Gwynedd ac Ynys Môn sy'n cael ei hwyluso gan *Gynllun Ffrindia* Mantell Gwynedd.
- 8.12 Bod problemau yng nghyswllt trafndiaeth, yn enwedig yn Ne Meirionnydd, gydag unigolion yn methu mynychu gweithgareddau oherwydd nad oes trafndiaeth ar gael i'r lleoliadau. Nodwyd bod gan *Age Cymru* fysiau mini a ddefnyddir ar gyfer tripiâu ar y mwyaf oherwydd y gost.
- 8.13 Bod natur ddwys cyflyrau unigolion yn golygu ymrwymiad amser a chynnydd mewn costau oherwydd bod angen ymweld â'r unigolyn nifer o weithiau.
- 8.14 Mae prinder darpariaeth mewn rhai ardaloedd ac yn ardal Meirionnydd yn arbennig.
- 8.15 Mae tuedd i bob cwmni fod yn weithredol mewn un ardal (Meirionnydd, Arfon neu Dwyfor). Cafwyd datblygiad yn ddiweddar lle y cyfunwyd dau gwmni – '*Abacare*' (a oedd yn bennaf weithredol yn ardal Meirionnydd) gyda '*Caredig*' (a oedd yn bennaf weithredol yn ardal Arfon). Mae'r cwmni newydd i weld yn ymestyn ymhellach i *Bowys* yn ogystal erbyn hyn.
- 8.16 Y rhoddir gwasanaeth i unigolion ar draws Gwynedd ond bod diffyg darpariaeth yn Ardal Meirionnydd yn gallu bod yn rhwystr.
- 8.17 Mae gwasanaeth (*Cludiant y Groes Goch*) sy'n cael ei redeg o Fachynlleth yn darparu cludiant i ac o *Ysbyty Gwynedd*, ond ni ddarperir gwasanaeth i ac o'r Ysbytai Cymunedol.
- 8.18 Wrth holi am yr agwedd o'r ysbyty i'r cartref yn *Ysbyty Tywyn*, darganfuwyd nad oedd aseswyr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn asesu cleientiaid o dde Gwynedd yn Ysbyty Bronglais Aberystwyth cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty a mynd adref.
- 8.19 O ganlyniad, roedd y cleifion yn cael eu trosglwyddo o *Ysbyty Bronglais* i *Ysbyty Tywyn* i gael eu hasesu, a dim ond ar ôl cynnal yr asesiadau y byddai'r cleifion yn cael eu hanfon adref.
- 8.20 Fodd bynnag, mae yna achosion lle mae teulu a ffrindiau wedi teithio i *Fronglais* a thu hwnt i *Ysbytai Glangwili, Llwynhelyg a Threforys* ger Abertawe i fynd â'r cleifion adref. Dyma pryd y maent yn disgyn trwy'r rhwyd fel petai, ac nid oes cynlluniau gofal wedi cael eu rhoi ar waith.

9. Prinder Meddygon a Nyrsys

Canfyddiad 8

Canfuwyd bod prinder meddygon teulu a nyrsys yn argyfyngus mewn rhai ardaloedd ac yn creu anawsterau difrifol o safbwynt cynnal gofal yn y gymuned.

Argymhelliad 5

Deallir bod gwaith yn mynd rhagddo i wella sefyllfa prinder meddygon a nyrsys a bod angen datblygu a chyfathrebu'r cynlluniau'n glir ac ar frys gan roi sylw arbennig i'r sefyllfa argyfyngus yn Nwyfor a Meirionnydd.

TYSTIOLAETH

- 9.1 Mae elfen wledig ardal Dolgellau yn cael effaith ar nifer o faterion. Un agwedd benodol sydd wedi dod yn amlwg yw'r angen i wneud y mwyaf o fynychu Clinigau Ymgynghorwyr yn Nolgellau. Mae problemau wedi bod gyda'r Bwrdd Iechyd yn ganolog yn cyfeirio cleifion i Wrecsam ac *Ysbyty Gwynedd* yn hytrach nag i'r clinig yn Nolgellau
- 9.2 Yn aml, bydd doctoriaid lleol yn cyfeirio cleifion i glinigau yn Wrecsam a Bangor am nad ydynt yn ymwybodol o glinigau sy'n cael eu cynnal yn Nolgellau.
- 9.3 Un o'r meysydd sy'n peri pryder arbennig yw maes dementia. Nid oes darpariaeth ddigonol a phwrpasol ar gael yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Yn wir, mae'n sefyllfa argyfyngus. Un o nodweddion hyn yw bod cleifion yn aros yn hirach na'r angen yn yr ysbyty gan gyfrannu at ddiffyg gwllâu at ddefnydd triniaeth aciwt. Does dim digon o ddarpariaeth gwllâu nyrsio na phreswyl arbenigol.
- 9.4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe gaewyd *Ward Heulwen* yn *Ysbyty Gwynedd* a oedd yn arbenigo mewn gwaith dementia ac fe gyfeirir pob achos dementia at *Ysbyty Cefni* yn Llangefni. Caewyd un o wardiau *Ysbyty Cefni* yn ogystal.
- 9.5 Un o'r elfennau sy'n cyfrannu at y pwysau yw diffyg nyrsys sy'n arbenigo mewn gofal dementia.
- 9.6 Mae cydweithio da yn digwydd rhwng gweithwyr cymdeithasol a swyddogion iechyd yng nghartref preswyl *Plas Hedd*. Yr anghenion sylfaenol er mwyn gwella'r sefyllfa yw:
 - Mwy o wllâu ysbyty
 - Gwella sgiliau gofalwyr i ddelio gyda dementia
 - Mwy o nyrsys seiciatryddol i'r gymuned (CPN)

10. Protocol Rhyddhau

Canfyddiad 9

Nid oedd tystiolaeth bod y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses o lunio Protocol Rhyddhau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Argymhelliad 6

Adolygu'r Protocol Rhyddhau gan ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys y cleifion a'r cyhoedd yn unol â Pholisïau a Chynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.

TYSTIOLAETH

- 10.1 Un gwendid yn y Ffurflen "Beth sydd yn bwysig", sef ffurflen asesiad integredig (y ffurflen sydd i gael ei ddefnyddio gan iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfeirio ymlaen) yw nad oes lle i nodi'r dyddiad y disgwylir rhyddhau o'r ysbyty ar y ffurflen.
- 10.2 Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth wneud amser i siarad â chleifion a gwrando arnynt.
- 10.3 Mae peth anghysondeb ynglŷn â'r Protocol Rhyddhau (Discharge Protocol) ar draws y Gogledd.
- 10.4 Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i gynllunio a datblygu gwasanaethau effeithiol ar draws Gogledd Cymru.
- 10.5 Er mwyn osgoi unrhyw oedi mae angen cynllun gofal ac unrhyw offer angenrheidiol fod yn ei le cyn i'r unigolyn fynd adref. I alluogi hyn i ddigwydd mae angen dechrau ar y cynllun gofal yn syth pan mae'r person wedi cyrraedd yr ysbyty. Nid yw hyn bob amser yn digwydd yn syth ar hyn o bryd.
- 10.6 Yn ogystal â hyn mae anawsterau yn codi oherwydd nad yw pobl yn adnabod gweithwyr y trydydd sector fel pobl broffesiynol, ac o'r herwydd yn gyndyn i rannu gwybodaeth lawn gyda'r Gymdeithas. Mae hyn yn gallu achosi anawsterau oherwydd bod angen yr holl wybodaeth o'r sefyllfa ac nid yn unig y manylion craidd.
- 10.7 Un anhawster yw ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar brynhawn Dydd Gwener i ollwng cleifion yn fyr rybudd dros y penwythnos. Mae angen mwy o rybudd er mwyn cynnal asesiad cyn rhyddhau cleifion.
- 10.8 Un rhwystr arall yw bod y Storfa yn yr Ysbyty ar gau ar y penwythnos, felly, hyd yn oed ar ôl cynnal asesiad, nid oes modd cael yr offer priodol ar gyfer gollwng y claf.
- 10.9 Mae natur cytundebau rhan amser rhai gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn golygu bod cydlynu'r gwaith yn anodd ar adegau. Weithiau bydd dyddiau neu wythnosau'n mynd heibio cyn cael ymateb.

- 10.10 Mae'r Cynlluniau Gofal yn cael eu paratoi yn Gymraeg. Mae rhai cartrefi gofal yn cael anawsterau lle nad oes staff dwyieithog mewn lle.
- 10.11 Nodwyd bod diffyg ymwybyddiaeth gan staff lechyd am y ffurflen newydd. Mae rhai aelodau o staff lechyd yn dal i lenwi'r hen ffurflen gan nad ydynt yn ymwybodol bod y ffurflen wedi ei baratoi ar y cyd efo lechyd.
- 10.12 Bod rhai Doctoriaid a Nyrsys yn cysylltu â'r *Tîm Cyngori ac Asesu Oedolion* i gael ffrâm gerdded er mai lechyd sydd yn darparu.
- 10.13 Y byddai'n fuddiol os byddai staff lechyd efo gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig wrth siarad efo unigolion yn yr ysbytai cymunedol cyn i'r unigolyn fynd adref.
- 10.14 Nododd y byddai'n hynod werthfawr os byddai systemau TG y Cyngor ac lechyd yn siarad efo'i gilydd er hwyluso mynediad i wybodaeth.
- 10.15 Er nad oes capasiti i gynyddu gweithgaredd heb fwy o adnoddau, mae'n bryder hefyd bod cyn lleied o ymwybyddiaeth am y gwasanaeth ymhlith staff yr ysbyty ac yn gyffredinol. Gallai staff y Bwrdd lechyd a Gweithwyr Cymdeithasol y Cyngor ehangu'r ymwybyddiaeth yma.
- 10.16 Mae angen edrych ar drefniadau caffael a chytundeb lefel gwasanaeth yn ofalus er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth. Yn y diwedd mae helpu cadw pobl yn annibynnol o fudd i'r unigolyn ac i'r gwasanaeth iechyd-gofal yn gyffredinol.
- 10.17 Os bydd Pecyn Gofal gan y cleient cyn mynd i'r Ysbyty a bod yr anghenion yn aros yn debyg ar ôl bod yn yr Ysbyty, yna bydd y Pecyn Gofal yn cael ei gyflwyno i'r Sister gyda mân newidiadau.
- 10.18 Os bydd anghenion y cleient yn newid yn sylweddol ar ôl bod yn yr Ysbyty, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn cau'r Pecyn Gofal yn *Ysbyty Gwynedd*, a bydd Pecyn Gofal newydd yn cael ei agor ar gyfer y cleient yn *Ysbyty Bryn Beryl*.
- 10.19 Mae hyn yn gallu creu anawsterau ac aneglurder i'r cleient a staff *Ysbyty Bryn Beryl*. Mi all hyn olygu bod gweithiwr cymdeithasol newydd yn llunio'r Pecyn Gofal newydd. Byddai'n well parhau gyda'r un Pecyn Gofal a'r un Gweithiwr Cymdeithasol.
- 10.20 Pan fydd Pecyn Gofal newydd yn cael ei greu mi all hyn gymryd hyd at bythefnos. Canlyniad hyn yw bod cleient yn gallu aros yn rhy hir yn yr ysbyty cyn trosglwyddo adref.
- 10.21 Mae trefniadau newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn gofyn i'r Sister lenwi ffurflenni gyda'r cleient cyn y gellir ei drosglwyddo i *Ysbyty Bryn Beryl*. Mae ffurflenni eraill hefyd yn gofyn am amser i'w cwblhau.

- 10.22 Nododd y Sister ei bod angen cyfathrebu gyda'r cleient er mwyn dod i ddeall ei anghenion. Mae gorfod llenwi'r ffurflenni yn rhwystr a gwastraff amser sylweddol sy'n tynnu oddi wrth ofal o'r cleient.
- 10.23 Byddai cael un Gweithiwr Cymdeithasol yn delio gydag *Ysbyty Bryn Beryl* yn well.
- 10.24 Mae peth prinder gweithwyr cymdeithasol yn golygu bod rhai cleifion yn aros am gael eu delio gyda nhw. Defnyddir y term '*eu rhoi yn y fased*' er mwyn disgrifio'r oedi yma.
- 10.25 Er mwyn llunio Pecyn Gofal, mae'r Sister angen llenwi dwy ffurflen – '*Integrated Adult Health & Social Care Core Data Set*' a '*Decision Support Tool for Continuing NHS Healthcare Section 1 – Personal Details*'.

11. Biwrocratiaeth

Canfyddiad 10

Gwelwyd enghreifftiau o fiwrocratiaeth a diwylliant o lenwi ffurflenni a oedd yn tanseilio ar adegau priod waith y nyrsys a gofalwyr.

Argymhelliad 7

Asesu llwyddiant y gwaith sy'n mynd rhagddo ar waith Lean/Vanguard yn Ysbyty Alltwen i gyfarch y trefniadau biwrocrataidd presennol er mwyn rhyddhau amser staff i ddelio gyda'u prif ddyletswyddau o ddarparu gofal a nyrsio.

TYSTIOLAETH

- 11.1 Un gwendid yn y Ffurflen *Beth sydd yn bwysig*, sef ffurflen asesiad integredig (y ffurflen sydd i gael ei ddefnyddio gan lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfeirio ymlaen) yw nad oes lle i nodi'r dyddiad y disgwylir rhyddhau o'r ysbyty ar y ffurflen.
- 11.2 Os nad ydi'r person sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn agored i unai gweithiwr cymdeithasol neu swyddog galluogi (efallai am fod achos wedi ei gau yn gyfan gwbl i'r Adran neu yn '*open under review*' - sef yn agored neu yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran ond ddim yn agored i weithiwr penodol) yna bydd y person sydd angen ei ryddhau o'r ysbyty yn cael ei gyfeirio i sylw *Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbyty Gwynedd* trwy i staff y ward gwblhau efo'r claf ffurflen asesiad integredig *Beth sydd yn bwysig*.
- 11.3 Mae achosion sydd eisoes yn agored i'r Adran, am fod lefel o wasanaeth yn cael ei ddarparu ond fod yr achos yn sefydlog yn cael ei nodi fel '*open under review*', ac felly ddim yn adnabyddus i un gweithiwr penodol.
- 11.4 Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth wneud amser i siarad â chleifion a gwrando arnynt.
- 11.5 Mae'r *Gymdeithas Strôc* yn darparu asesiad cyflawn pan mae'r unigolyn yn cyrraedd adref o'r ysbyty. Mae posib wedyn adnabod anghenion yr unigolyn, a chyfeirio ymlaen i wasanaethau sy'n cynnwys cymorth gyda budd-daliadau, rhaglenni NERS (cynllun Cyfeirio i Ymarfer), dilyn i fyny gyda ffisiotherapi a therapi galwedigaethol neu Gofal a Thrwsio ar gyfer canllawiau ayyb. Pethau ymarferol sy'n bwysig i bobl, er enghraifft mae gyrru yn beth pwysig iawn i bobl.
- 11.6 Mae'r *Groes Goch* wedi derbyn canmoliaeth yn ddiweddar gan aseswyr allanol – WIHSC – ar gyfer datblygu'r *Olywn Newid*. Teclyn yw hwn sy'n ystyried anghenion

unigolyn sy'n arwain at Gynlluniau Gweithredu clir. Mae'n gynllun sy'n rhoi'r unigolyn yn y canol.

- 11.7 Pan fo person yn dychwelyd o'r ysbyty i'r cartref, yn dilyn y 6 wythnos gyntaf adref, gall unigolyn, aelod o'r teulu, ffrind neu weithiwr cymdeithasol gysylltu â'r *Groes Goch* a gwneud cais am asesiad gan dîm Adref o'r Ysbyty o'i anghenion i'w alluogi i barhau gyda'i wellhad, gan y gwasanaeth Adref o'r Ysbyty, neu gallant gyfeirio at y gwasanaeth Cyfeillio.
- 11.8 Os bydd person yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth Cyfeillio, yna bydd swyddog o'r Groes Goch yn cynnal Asesiad o'i angen gan ddefnyddio'r Olwyn Newid fel teclyn gan gynllunio a darparu gwasanaeth ail-alluogi. Mae hyn ar wahân i'r Pecyn Gofal ond bydd y Pecyn Gofal wedi cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad.
- 11.9 Bydd y gwasanaeth ail-alluogi yn rhedeg am gyfnod o hyd at 12 wythnos.
- 11.10 Ar derfyn y cyfnod yma bydd Asesiad Cau yn cael ei gynnal.
- 11.11 Nodwyd pryder er yn y mwyafrif o achosion bod anghenion yr unigolyn yn cael eu cyfarch yn effeithiol gan yr amrywiol weithredoedd a gwasanaethau a ddarperir gan yr amrywiol sefydliadau, nad oedd yma ddull clir ac integredig.
- 11.12 Mae'r ffaith bod dwy drefn gwynion gwahanol gan Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a dwy amserlen wahanol yn gallu creu anawsterau a chymhlethdodau.
- 11.13 Y drefn ar hyn o bryd yw bod staff Tîm Cyngori ac Asesu neu Weithiwr Cymdeithasol yn diweddar'u wybodaeth am y claf ar system electronig o'r enw RAISE. Mae'r prosiect (Un Pwynt Cyswllt) yn edrych ar sut i ddatblygu'r system data electronig a fyddai'n medru cael ei gyd ddefnyddio gan y gwasanaeth iechyd hefyd yn sgil datblygu gwaith llawn integredig i'r dyfodol. Yr amcan yw gwneud y gorau i'r claf (gan ystyried iechyd a gofal) heb oedi ac i sicrhau cefnogaeth gynnar i arbed argyfwng a cholled o annibyniaeth i'r unigolyn.
- 11.14 Defnyddir system PIMMS y Bwrdd Iechyd i drefnu apwyntiadau ar gyfer cleifion y Bwrdd Iechyd.
- 11.15 Mae pob cyfeiriad i glinig yn cael ei gyfeirio ar y system electronig ganolog sy'n cael ei defnyddio gan holl ddoctoriaid a swyddogion y Bwrdd Iechyd ar draws y Gogledd.
- 11.16 Bydd cyfeiriadau ar gyfer apwyntiadau gydag Arbenigwyr yn cael eu nodi ar y system gan swyddogion gweinyddol sy'n gweithio yn *Ysbyty Maelor Wrecsam* neu *Ysbyty Gwynedd Bangor*.
- 11.17 Mae clinigau yn cael eu cynnal yn Wrecsam, Bangor ac *Ysbyty Dolgellau*.

- 11.18 Yn aml, bydd doctoriaid lleol yn cyfeirio cleifion i glinigau yn Wrecsam a Bangor am nad ydynt yn ymwybodol o glinigau sy'n cael eu cynnal yn Nolgellau.
- 11.19 Bydd swyddogion sy'n gweithio yn Wrecsam neu Bangor yn gosod cleifion i fynychu clinigau yn Wrecsam neu Bangor fel arfer er bod clinigau mwy cyfleus ar gael i gleifion lleol yn Nolgellau.
- 11.20 Canlyniad hyn yn aml yw bod cleifion yn cael anhawster i fynychu'r apwyntiad oherwydd y pellter a chymhlethdodau cludiant a threfniadau gofal ac ati.
- 11.21 Un ffordd hawdd o ddatrys hyn fyddai i'r swyddogion yn Wrecsam a Bangor edrych ar gôd post y claf er mwyn trefnu apwyntiad yn y man mwyaf cyfleus.
- 11.22 Yn dilyn derbyn cais gan y Tîm yn yr ysbyty bydd Swyddog neu un o Reolwyr Rhanbarthol (Regional Managers) cwmni *Abacare* yn cynnal asesiad o'r Pecyn Gofal neu fanylion y cais. Yn dilyn yr asesiad bydd y Swyddog neu un o'r Rheolwyr Rhanbarthol yn cytuno i weithredu'r pecyn neu yn ail-lunio'r pecyn lle bod angen cyn cytuno i'w dderbyn.
- 11.23 Bod ffurflen ar y cyd gydag lechyd wedi ei lunio, sef '*Set Data Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Gogledd Cymru*'. Amcan y ffurflen yw bod y person cyntaf sydd mewn cyswllt â'r unigolyn yn llenwi'r ffurflen.
- 11.24 Mae'r ffurflen ar y cyd yn gam pwysig, gyda'r disgwyliad bod Doctoriaid, Nyrsys a swyddogion y Cyngor yn ei ddefnyddio.
- 11.25 Nodwyd bod diffyg ymwybyddiaeth gan staff lechyd am y ffurflen newydd. Mae rhai aelodau o staff lechyd yn dal i lenwi'r hen ffurflen gan nad ydynt yn ymwybodol bod y ffurflen wedi ei baratoi ar y cyd efo lechyd.
- 11.26 Bod rhai Doctoriaid a Nyrsys yn cysylltu â'r tîm i gael ffrâm gerdded er mai lechyd sydd yn darparu.
- 11.27 Bellach, mae'r *Groes Goch* yng Ngwynedd a Môn yn rhedeg *Gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth*. Mae'r gwasanaeth yn fwy hwylus i ddefnyddwyr gan ei fod yn golygu mai un person sy'n cydlynu anghenion yr unigolyn pan fo'n gadael yr Ysbyty i fynd adref. Mae'n cynnwys cludiant, darparu cadair olwyn, pecyn bwyd a setlo'r unigolyn yn y tŷ.
- 11.28 Gweithredir y Cynllun drwy lenwi Ffurflen syml gan Weithiwr Cymdeithasol neu Nyrs ar y Ward sy'n cyfeirio'r Unigolyn at y *Groes Goch* ac yn nodi ei anghenion. Trosglwyddir y Ffurflen i Swyddog yn yr Ysbyty neu ei ffacio i Swyddog arall. Bydd un o'r Swyddogion yn prosesu'r cais yn syth naill ai drwy ddefnyddio un o faniau'r mudiad neu ei gyfeirio at wirfoddolwr.

- 11.29 Mae trefniadau newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn gofyn i'r Sister lenwi ffurflenni gyda'r cleient cyn y gellir ei drosglwyddo i Ysbyty Bryn Beryl. Mae ffurflenni eraill hefyd yn gofyn am amser i'w cwblhau.
- 11.30 Er mwyn llunio Pecyn Gofal, mae'r Sister angen llenwi dwy ffurflen – *'Integrated Adult Health & Social Care Core Data Set'* a *'Decision Support Tool for Continuing NHS Healthcare Section 1 – Personal Details'*.

Methodoleg / Amserlen

1 Cyflwyniadau a gwybodaeth cyd-destun a ystyriwyd

- Achosion Oedi wrth Drosglwyddo 2013-14
- Adroddiad Broceriaeth Ebrill 2014
- Mesuryddion Cymharol 2011-2014
- Gofal Canolradd
- Protocol Rhyddhau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Gorffennaf 2012
- Set Data Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Gogledd Cymru

2 Cyfwelai

Swyddogion Mudiadau'r Trydydd Sector

- Rheolwr Gofal a Thrwsio
- Swyddogion y Gymdeithas Strôc
- Cydlynnydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Groes Goch
- Gweithiwr Cefnogol Cynllun Cyfeillio y Groes Goch
- Rheolwr Gwasanaeth Cludiant y Groes Goch
- Uwch Swyddog Age Cymru
- Cydlynnydd Canolfan Age Cymru
- Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mantell Gwynedd

Swyddogion Adran Oedolion Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd

- Uwch Ymarferyddion Therapi Galwedigaethol
- Uwch Reolwr Gweithredol
- Swyddog Gofal Cwsmer
- Rheolwr Trosglwyddo Partneriaethau mewn Gofal
- Rheolwyr Ardal
- Swyddogion Broceriaeth
- Uwch Swyddog Cyngori ac Asesu

Swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Nyrs Staff
- Uwch Swyddog Cyngor Iechyd
- Swyddog Gweinyddol
- Rheolwr Ward

Swyddogion y Sector Breifat

- Uwch Swyddog Gweithredol Abacare

3 Ymweliadau

- Ysbyty Alltwen
- Ysbyty Tywyn
- Canolfan Heneiddio'n Dda Cricieth
- Digwyddiad Iechyd Da, Dolgellau

4 Amserlen

Gorffennaf 2014 Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn Sefydlu'r Ymchwiliad

Medi 2014 - Ionawr 2015 Aelodau'r Ymchwiliad yn Casglu ac ystyried Gwybodaeth a Thystiolaeth

Chwefror-Mai 2015 Trafod adroddiadau drafft gyda'r Weithrediaeth a'r Bwrdd Iechyd

Mehffin 2015 Cytuno Adroddiad Terfynol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Camau Nesaf

Mehffin 2015 Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol i'r Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd a'r Bwrdd Iechyd

Gorffennaf 2015 Ystyried yr Adroddiad yn y Fforwm Sirol (Cydgysfarfod rhwng Weithrediaeth Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd)

Medi 2015 Fforwm Sirol i lunio Cynllun Gweithredu

Hydref 2015 Pwyllgor Craffu i gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Gweithredu

Mawrth 2016 Fforwm Sirol i ddarparu Adroddiad Cynnydd

5 Prif Ddogfennau Cysylltiol efo lincs lle'n bosibl

- Protocol Rhyddhau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Mwy na Geiriau (Fframwaith Strategol Cyngor Gwynedd)
- Cyfeirlyfr o Rai o Wasanaethau ar gyfer Oedolion Gwynedd (Mantell Gwynedd)
- Adroddiadau Perfformiad Cyngor Gwynedd 2012-13, 2013-14
(<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y->

[Cyngor/Adroddiad-Perfformiad-Cyngor-Gwynedd-2013-14.pdf](#)), a chwarterol
2014-15 ar Fesurddion Maes Gofal

- Hyb Hwrwyddo Iechyd Da (Adran Cleifion Allanol Ysbyty Dolgellau)
- Cronfa Byw'n Annibynnol – Trefniadau I'r Dyfodol – Ymgynghoriad 3 Hydref 2014
(<http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/fund/?status=closed&lang=cy>)
- Sut i gael cymorth rydych chi angen
- Crynodeb o Brosiectau Cronfa Gofal Canolradd Gwynedd

6 Aelodau'r Ymchwiliad

Cynghorwyr:

Peter Read (Cadeirydd)
Y Diweddar Huw Edwards
Linda Ann Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Ann Williams
Eirwyn Williams

Swyddogion

Gareth James, Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu
Sioned Thomas, Uwch Swyddog Polisi
Bethan Adams, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu

7 Pwynt cyswllt

Bethan Adams, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu

Cyfeiriad: Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Ebost: BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679020